


Cynllun strategol Medr: ymgynghoriad  
â dysgwyr

*Crynodeb gweithredol o'r  
canfyddiadau ansoddol*



Paratowyd ar gyfer  
Medr

Paratowyd gan  
Beaufort Research

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research

## Manylion cyswllt

Cysylltiadau'r asiantaeth: Fiona McAllister, Adam Blunt, Catrin Davies

Cynllun strategol Medr: ymgynghoriad â dysgwyr - *crynodeb gweithredol o'r canfyddiadau ansoddol*

Tachwedd 2024

## Beaufort Research

2 Plas yr Amgueddfa  
Caerdydd  
CF10 3BG

(029) 2037 8565

[enquiries@beaufortresearch.co.uk](mailto:enquiries@beaufortresearch.co.uk)

[www.beaufortresearch.co.uk](http://www.beaufortresearch.co.uk)

## Telerau'r contract

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamgyflead y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei gwrthod.

Wrth gyhoeddi unrhyw ganfyddiadau gyda chymeradwyaeth, rhaid nodi: Beaufort Research Ltd fel y darparwr, maint y sampl a dyddiadau'r gwaith maes.

© Beaufort Research Ltd 2024

Cynhyrchwyd yn unol ag ISO20252



## Crynodeb gweithredol a chasgliadau

### Cyflwyniad

Mae Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru, yn un o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru sydd newydd gael ei sefydlu gyda chyfrifoldeb am gyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru o 1 Awst 2024. Ei gylch gwaith yw addysg uwch ac addysg bellach; prentisiaethau; dysgu oedolion yn y gymuned; a chweched dosbarth mewn ysgolion. Un o brif gyfrifoldebau Medr yw sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn ganolog i brosesau penderfynu.

Mae Medr wrthi'n datblygu ei gynllun strategol cyntaf, ar gyfer y cyfnod o 2025 – 2030. Rhan hanfodol o ddatblygu'r cynllun yw ymgynghori â rhanddeiliaid – a bydd gan lais y dysgwr rôl hanfodol wrth ddatblygu'r cynllun. Felly rhoddodd Medr gomisiwn i Beaufort i gynnal ymchwil ansoddol ymhlith dysgwyr yn y sector addysg drydyddol fel rhan o'r broses ymgysylltu hon.

Nodau'r ymchwil oedd:

- Deall beth sy'n bwysig i ddysgwyr ar eu llwybr trwy'r sector addysg drydyddol, gan gynnwys o safbwynt ymgysylltu
- Archwilio pa fecanweithiau fyddai'n effeithiol yn nhyb dysgwyr i sicrhau bod Medr yn gwrando ar lais y dysgwr ym mhob agwedd ar ei waith
- Cael adborth ar nodau strategol drafft Medr
- Deall pa newidiadau yr hoffai dysgwyr eu gweld o ganlyniad i sefydlu Medr.

Fe gynhaliom ni chwe grŵp ffocws fideo ar-lein, a oedd yn cynnwys dysgwyr chweched dosbarth mewn ysgolion, dysgwyr addysg bellach (AB), myfyrwyr addysg uwch (AU) (israddedigion yn bennaf), prentisiaid ac oedolion sy'n dysgu yn y gymuned.

Bu deugain a saith o ddysgwyr o 17 o ddarparwyr addysg yng Nghymru'n bresennol ar draws y chwe grŵp, gyda'r gwaith maes yn digwydd rhwng 17 a 24 Hydref 2024. Roedd y mwyafrif o'r dysgwyr mewn rolau cynrychioli dysgwyr megis cynrychiolwyr cyrsiau, swyddogion undebau myfyrwyr neu lywodraethwyr o blith y myfyrwyr.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn, mae'n bwysig nodi nad oedd y sampl o ddysgwyr a gyfranogodd yn yr ymchwil yn cynrychioli nodweddion na barn yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Felly dim ond barn y rhai a gymerodd ran, ac nid o reidrwydd y boblogaeth dysgwyr ehangach, y mae eu hadborth yn ei chynrychioli.

### Canfyddiadau allweddol

*Mae dysgwyr ar draws lleoliadau addysg drydyddol yn tueddu i gredu bod eu darparwyr yn **gefnogol** ac yn **gweithio tuag at ddatrys materion a godir**, ond mae lleoliadau AU ac AB yn sefyll allan gyda'u hamrywiaeth o sianeli ymgysylltu â dysgwyr.*

- Myfyrwyr **AU ac AB** sy'n disgrifio'r ystod ehangaf o gyfleoedd ymgysylltu ac maent yn **siarad yn gadarnhaol iawn** amdanynt. Mae ganddynt fynediad at gymysgedd o sianeli adborth ffurfiol ac anffurfiol megis arolygon, systemau cynrychioli, a chyswllt

uniongyrchol â staff. Mae dysgwyr AB yn arbennig yn dweud eu bod yn profi diwylliant o wrando gan uwch aelodau o staff, gyda sbectrwm eang o sianeli cynrychioli ac ymrwymiad i roi adborth ar faterion a godwyd.

*Ceir llawer o gymorth gan y bwrdd a chan yr uwch dîm yn y coleg. Maent wastad yn gwneud eu hunain yn hysbys, gan ddweud y gallwn ddod atynt ar gyfer unrhyw beth. (Dysgwr AB)*

- Fodd bynnag, mae rhai myfyrwyr AU yn teimlo bod **cyflymder y newid** o ganlyniad i adborth dysgwyr yn gallu bod yn araf.
- Mae **prentisiaid** yn gwerthfawrogi eu **perthnasoedd** cefnogol, rhagweithiol **gydag aseswyr**, gan amlygu cyfathrebu llwyddiannus. Fodd bynnag, maent yn tueddu i beidio â bod yn ymwybodol o fecanweithiau adborth mwy ffurfiol.

*Cefais y sgwrs honno gyda fy aseswr [am fater], a dywedodd hithau, . . . ‘gad i mi siarad gyda’r athro’. . . . Ac roeddwn i’n teimlo ei fod yn fan diogel i mi allu gwneud hynny, gallu rhannu’r profiad hwnnw. (Prentis)*

- Mae dysgwyr **chweched dosbarth mewn ysgolion** yn dweud eu bod yn teimlo **eu bod yn cael eu clywed o fewn cwmpasau cyfyngedig**. Gall deimlo fel mai staff yr ysgol sy’n pennu’r agenda ar gyfer ymgynghori. Crybwyllir cynghorau llysoedd a thimau uwch swyddogion fel elfennau sy’n rhan o’r system i gyfleu materion i staff. Ceir enghreifftiau hefyd o grwpiau ffocws a’r cyfryngau cymdeithasol fel sianeli i fynegi eu barn.
- Mae **oedolion sy’n dysgu yn y gymuned** yn gwerthfawrogi **tiwtoriaid ymatebol** a chyfleoedd ar gyfer adborth wyneb-yn-wyneb. Fodd bynnag, mae’r rhan fwyaf o’u cyswllt hwy gyda’u tiwtoriaid, felly maent yn teimlo mwy o ymdeimlad o fod wedi’u datgysylltu oddi wrth y sefydliad y tu ôl i’r ddarpariaeth dysgu o’i gymharu â grwpiau dysgwyr eraill.

*Mae’r holiadur yr ydym yn ei lenwi ar ddiwedd pob cwrs yn canolbwyntio’n gyfan gwbl ar y tiwtor. Mae’r tiwtor sydd gennym yn wych. . . . Ond ni ofynnir i ni byth am ein barn [ynghlŷn â meysydd eraill]. (Oedolyn sy’n dysgu yn y gymuned)*

- Mae **oedolion sy’n dysgu yn y gymuned** a **dysgwyr chweched dosbarth** mewn ysgolion yn fwy tebygol o deimlo nad yw eu barn yn cael gwrandawriad bob amser yn berthynol i’r grwpiau eraill.
- Mae **codi ymwybyddiaeth** ymhlith dysgwyr o fecanweithiau adborth yn dal i allu bod yn her mewn lleoliadau AU ac AB.
- Mae **mecanweithiau a awgrymir** ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr yn cynnwys parhau â dulliau **cyfredol** (dysgwyr mewn AU, AB, chweched dosbarth mewn ysgolion a phrentisiaid). Mae syniadau ychwanegol yn tueddu i ymwneud â sicrhau bod dysgwyr yn **teimlo’n gyfforddus** yn lleisio eu barn (e.e. bod ganddynt gyswllt penodol ar gyfer codi mater, trafodaethau mewn grwpiau bychain, a defnyddio eu cymheiriaid i gasglu adborth).

*Cyn belled â bod rhyw gyswllt dynol ar unwaith. Rwy’n meddwl y byddwn i’n teimlo’n llawer gwell am y mater. Dim ond bod rhywun yno i dawelu fy meddwl. (Myfyriwr AU)*

- Awgrymodd cyfranogwyr y gallai **Medr** fanteisio ar **sianeli presennol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr**, er enghraifft i weinyddu dolen i arolwg ar-lein; neu greu **gofod neu fforwm**

**ar-lein** ar gyfer trafodaethau / arolygon, neu gynnull **grwpiau ffocws ar-lein** wedi'u targedu.

*Mae trafodaeth am brofiadau o lwybrau dysgwyr yn cael ei dominyddu gan ganfyddiad nad yw ysgolion yn gwneud digon i egluro'r ystod o lwybrau sydd ar gael ar ôl TGAU wrth ddysgwyr.*

- Er nad yw'r mater hwn yn rhan uniongyrchol o gylch gwaith Medr, roedd yn amlwg yn y trafodaethau ac yn amlygu rhai dibyniaethau allweddol a fydd yn effeithio ar gyrraedd nodau strategol Medr yn effeithiol.
- Yn ôl y sôn mae ysgolion uwchradd yn aml yn pwysleisio **aros ymlaen ar gyfer y chweched dosbarth yn yr ysgol** a chamu ymlaen i **addysg uwch**, weithiau ar draul egluro'r holl opsiynau ar ôl Blwyddyn 11. Mae dysgwyr chweched dosbarth mewn ysgolion sydd â bwriad eglur i fynd i'r brifysgol yn dweud eu bod yn cael digonedd o gymorth, gan gynnwys help gyda'u datganiad personol a ffug gyfweiliadau.
 

*Fe wnaeth fy ysgol i ein gwthio gryn dipyn i fynd ymlaen i'w chweched dosbarth ei hun. . . . Roeddent ychydig yn amheus ynglŷn â phobl yn mynd i'r coleg. Doedden nhw ddim wir yn gefnogol iawn i hynny a doedden nhw ddim yn meddwl o anghenraid ei fod yn syniad gwych. (Dysgwr chweched dosbarth mewn ysgol)*
- Felly gall dysgwyr deimlo'n **anwybodus** am ddewisiadau eraill megis prentisiaethau neu gyrsiau mewn colegau oherwydd y ffocws canfyddedig hwn ar Safon Uwch a phrifysgol.
- Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae dysgwyr yn cyfeirio at ymgynghorwyr gyrfaoedd ac ysgolion yn **rhoi arweiniad ehangach** ar lwybrau addysg ôl-orfodol. Roedd ymgynghorwyr gyrfaoedd yn eu helpu i ystyried opsiynau y tu hwnt i'r chweched dosbarth yn yr ysgol, ac yn rhoi cyngor ynghylch ymrestru mewn coleg neu brentisiaethau.
- Mae dysgwyr mewn colegau AB fel rheol yn **canmol eu colegau** am eu harwain yn effeithiol ar hyd eu llwybrau addysgol. Mae colegau'n cael eu canmol am helpu dysgwyr i ddod o hyd i gyrsiau addas, gan gynnwys pan ganfyddir nad yw dewis cychwynnol yn gweddu i'r dysgwr, cynnig gwasanaethau gyrfaoedd, cyfleoedd profiad gwaith, a thrafodaethau am nodau yn y dyfodol.
- Roedd rhai dysgwyr wedi wynebu anawsterau oherwydd bod pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar eu blwyddyn olaf mewn addysg orfodol ond wedi dod o hyd i **gymorth unwaith yr aethant at goleg lleol**.
- Mae **ffynonellau anffurfiol** megis ffrindiau, teulu, a sgysiau gyda myfyrwyr prifysgol neu brentisiaid presennol yn dylanwadu'n sylweddol ar rai llwybrau dysgwyr.
- Mae **prentisiaid yn glir fel rheol** ynghylch eu hopsiynau ar ôl prentisiaeth a byddent yn ceisio cyngor gan eu haseswyr os oedd angen.
 

*Byddwn i'n defnyddio fy aseswr mwy na thebyg. Y man galw cyntaf, sgwrs anffurfiol iawn gyda hi ydyw, beth sydd nesaf? Cael ei chynngor anffurfiol hi, dyna'r cwbl. (Prentis)*
- Mae **oedolion sy'n dysgu yn y gymuned** weithiau'n wynebu anawsterau wrth **adnabod cyrsiau lleol** sydd ar gael iddynt; ac mae'n well gan rai ddysgu fel **hobi** yn hytrach nag i gael achrediad neu fel rhan o daith ddysgu ehangach.

- Serch hynny, rhoddir enghreifftiau o oedolion sy'n dysgu yn y gymuned yn dilyn llwybr, o ran datblygu **hyder**, rheoli **iechyd meddwl a lles** a dysgu sgiliau i ddod yn **economaidd weithgar** eto.

*Rwy'n cael trafferthion gyda fy iechyd meddwl hefyd ac o ran mynd allan o'r tŷ ac mae wir wedi gwneud daioni i'm hiechyd meddwl yn ogystal â dysgu pethau. . . . Rwyf wir yn edrych ymlaen at fynd. (Oedolyn sy'n dysgu yn y gymuned)*

*Gall cyfranogwyr deimlo i ddechrau bod **unrhyw un yn gallu cael mynediad at yr addysg a hyfforddiant** a ddymunant, ond mae rhai **rhwystrau** canfyddedig i ddysgu'n cael eu lleisio wedyn megis cyllid, ymwybyddiaeth o'r opsiynau, a natur wledig.*

- Mae rhai dysgwyr yn credu bod **ystod eang o gyrsiau** ar gael ar **amrywiaeth o lefelau** i weddu i'r holl ddysgwyr.
- Tybir bod rhai colegau AB yn **cefnogi dysgwyr anabl** a'r rhai ag **anawsterau dysgu**, gan roi cymorth unigol hanfodol.

*Mae gen i anabledau corfforol. Bob tro rwy'n cofrestru ar gyfer cwrs newydd, maen nhw wastad yn gofyn, 'oes angen unrhyw gynhorthwy arnoch? Oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud?' Felly maen nhw'n dda iawn, iawn gydag anabledau corfforol. (Oedolyn sy'n dysgu yn y gymuned)*

- Mae rhai'n amlygu bod dysgu AB yn **fforddiadwy yn ariannol**, gyda darpariaethau fel pasys bysiau a chymorth ariannol fel y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Fodd bynnag mae disgwyl i newidiadau crybwylledig mewn cyllid ar gyfer teithio ar fysiau wneud hynny'n ddrutach i ddysgwyr, gan **gynyddu rhwystrau ariannol** o bosibl.
- Credir ar adegau bod costau byw, cymhlethdodau ariannol a diffyg ymwybyddiaeth o sut y mae cyllid myfyrwyr yn gweithio'n rhwystr i **obeithion o fynd i'r brifysgol**.
- Mae **ymwybyddiaeth gyfyngedig** o gyfleoedd addysgol a chyngor di-fudd ynghylch gyrfaoedd, fel a ddisgrifiwyd uchod, yn cael eu dyfynnu fel rhwystrau.
- Roedd un cynrychiolydd myfyrwr AU wedi gwneud y sylw bod dysgwyr AB yn gallu bod yn **llai parod yn academiaidd** na'u cymheiriaid yn y chweched dosbarth, gan ysgogi'r brifysgol i gynnig cymorth ychwanegol.

*Yn y coleg [AB], rydych chi'n gwneud pethau ymarferol iawn, dydych chi ddim yn gwneud cymaint â hynny ar yr ochr wyddonol. Ac felly roedd yn newid mawr iawn mynd i'r brifysgol a'r holl wyddoniaeth yma'n sydyn yn cael ei thafllu atoch a'r disgwyliad i chi fod yn gwybod yr holl bethau hyn ers gwneud Safon Uwch. Roedd yn broblem fawr iawn yn y flwyddyn gyntaf. (Myfyriwr AU)*

- Gall **natur wledig** effeithio ar fynediad at lwybrau addysg a ddymunir, gydag opsiynau cyfyngedig o ran cludiant i ysgolion gyda chweched dosbarth, er enghraifft, neu i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg, ac opsiynau cyfyngedig o ran dysgu oedolion.

*Roedd arnaf eisiau aros yn yr ysgol, ond does dim cludiant o'n tref ni i'r chweched dosbarth agosaf. Felly fe dreuliais i flwyddyn 12 i gyd yn gorfod trefnu fy nghludiant fy hun i'r ysgol yr wyf ynnddi yn awr am nad yw ein cyngor yn darparu cludiant i'r ysgol honno. (Dysgwr chweched dosbarth mewn ysgol)*

- Credir bod **argaeledd prentisiaethau** yn gyfyngedig mewn rhai rhanbarthau yng Nghymru, gan effeithio ar ddewisiadau myfyrwyr.

- Mae **rhwystrau posibl pellach** i ddysgu a grybwyllwyd yn cynnwys effaith graddau TGAU gwael, a niferoedd ymrestru annigonol i gynnal rhai cyrsiau.

*Mae cyfranogwyr yn amlygu **anghysonderau** gyda chyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg – mae rhai'n nodi cynigion **sy'n gwella** ac sy'n rhagweithiol, yn fwy nag eraill.*

- **Mae'r farn yn amrywio** ymhlith cyfranogwyr ynglŷn â'r cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg mewn addysg.
- Mae rhai **myfyrwyr AU** yn disgrifio'r Gymraeg fel elfen **flaenllaw** o fywyd prifysgol, gyda modiwlau, llety, cymdeithasau a chynrychiolaeth undeb myfyrwyr yn y Gymraeg.
- Mae **dysgwyr AB** hefyd yn amlygu mentrau **rhagweithiol** gan eu coleg i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae enghreifftiau'n cynnwys mynd ati'n gynyddol i drefnu bod deunyddiau ac asesiadau ar gael yn ddwyieithog, derbyn gwaith a gyflwynir yn Gymraeg, gofyniad i staff ddysgu Cymraeg sylfaenol, ac ymdrechion cyffredinol i greu amgylcheddau dwyieithog.
- Yn ôl y sôn gall **oedolion sy'n dysgu yn y gymuned** gael cynnig yr opsiwn i gael eu **hasesu** yn Gymraeg, hyd yn oed os nad oedd yr aseswr yn siarad yr iaith.
- Mae myfyrwyr **chweched dosbarth mewn ysgolion** cyfrwng Cymraeg yn naturiol yn dweud eu bod yn cael **cyfleoedd mynych** i ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg, er bod rhai'n nodi bod ffrindiau sy'n siarad Cymraeg yn **colli'r iaith** mewn amgylcheddau addysgol di-Gymraeg ôl-16.
- Gall prentisiaid sôn am gyfleoedd i **ddefnyddio'r Gymraeg gydag aseswyr** ac i ddilyn **cyrsiau yn Gymraeg**.

*Cefais gynnig [y cwrs] yn Gymraeg. Pe bawn i wedi dweud oes, mae arnaf eisiau ei wneud yn Gymraeg, gallaf ddychmygu y byddai'r help ar gael. (Prentis)*

- Yn llai cadarnhaol, dywedir am achosion lle'r oedd cyfran fach yn unig o gwrs AU yn Gymraeg er bod dysgwyr ar 'fersiwn Gymraeg y rhaglen', diffyg ymwybyddiaeth o unrhyw **gyfleoedd i wella sgiliau Cymraeg** ar gyfer y rhai sy'n siarad ychydig o Gymraeg, a diffyg **lleoliadau addysg Gymraeg** yn ddiweddarach wrth adael ysgol Gymraeg heb chweched dosbarth.

*Rwy'n ei gael yn weddol rhwystredig hefyd. Fe hoffwn i ddysgu Cymraeg ac nid oes cyfleusterau go iawn fan hyn i wneud hynny. (Myfyriwr AU)*

*Mae cyfranogwyr yn tueddu i deimlo eu bod yn **cael eu cefnogi** o ran eu hiechyd meddwl a'u lles gan eu darparwyr er **nad oedd pawb yn ymwybodol** o'r hyn sydd yn ei le.*

- Mae rhai **dysgwyr AB** yn crybwyll ac yn gwerthfawrogi gwiriadau lles anffurfiol rheolaidd gan diwtoriaid a thimau lles a neilltuwyd i'r diben hwnnw, argaeledd cyrsiau cydnerthedd, a digwyddiadau ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.

*Rwyf wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl. . . . Mae fy nhwtoriaid yn anhygoel. Rwy'n eu parchu'n llwyr ac yn dwlu arnynt. Maen nhw wedi fy helpu i ddod drwy'r flwyddyn gyntaf. . . . Fe es i mor bell â llwyddo i gyflawni rhagoriaeth mewn rhywbeth am y tro cyntaf erioed. (Dysgwr AB)*



- Mae **myfyrwyr AU** hefyd yn sôn am brofiadau cadarnhaol, er enghraifft gyda staff addysgu'n dda am atgoffa dysgwyr am gymorth bugeiliol, cyfeirio at y cymorth a gynigir, a gallu cael egwyl o'u hastudiaethau pan ydynt yn dioddef gyda'u hiechyd meddwl.
- Mae rhai **dysgwyr chweched dosbarth mewn ysgolion** yn siarad am gymorth cadarnhaol trwy staff lles dynodedig, wythnosau lles, ac ymdeimlad bod iechyd meddwl a lles yn cael eu trafod fel rhan o'r drefn arferol.
- Mae **prentisiaid** yn amlygu rôl aseswyr sy'n ymholi'n rheolaidd ynghylch eu lles, yn addasu llwythi gwaith, ac yn estyn terfynau amser i leddfu pwysau. Cyfeirir hefyd at sesiynau wythnosol ar gyfer prentisiaid sy'n darparu man diogel i drafod materion.

*Mae fy aseswr yn dda iawn, iawn. Mae hi'n deall ein bod ni dan lawer o bwysau ar hyn o bryd yn y gwaith a'i fod yn gyfnod prysur iawn. Felly bydd hi'n gwrando ar yr hyn yr wyf yn ei ddweud wrth fwrw bol ychydig yn glân â faint o waith y gallaf ei wneud. (Prentis)*

- Mae **oedolion sy'n dysgu yn y gymuned** yn sôn am brofiadau cadarnhaol o diwtoriaid hawdd mynd atynt gyda phersonoliaethau gofalgwr sy'n holi'n rheolaidd am eu lles. Mae egwylion wedi cael eu cyflwyno hefyd yr ystyrir eu bod o fudd i iechyd a lles.
- Doedd yr adborth **ddim yn gadarnhaol i gyd**, er enghraifft gyda diffyg ymwybyddiaeth o gymorth ar gyfer iechyd meddwl ymhlith rhai oedolion sy'n dysgu yn y gymuned; a sôn am brofiadau negyddol gyda chwrselwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion.

*Fe allwch chi fynd at gwnselydd. Ychydig iawn o bobl y gwn i amdanynt sydd wedi gwneud hynny, ac sydd wedi cael profiadau cadarnhaol gyda hwy. . . . Dydy'r profiad ddim o ryw lawer o gymorth, dyna'r gwir amdani. (Dysgwr chweched dosbarth mewn ysgol)*

- Ceir cyfeiriad hefyd at y ffaith bod gwasanaethau myfyrwyr AU yn **anefeithlon** ac yn **araf** i roi cymorth gydag iechyd meddwl a lles.
- Dylid cofio y gallai rhai fod wedi peidio â sôn am brofiadau sensitif yn ystod y grwpiau trafod.

*Mae'r newid mwyaf cyffredin y mae ar ddysgwyr eisiau ei weld i brofiad dysgwyr yn ymwneud yn bennaf ag **arweiniad ynghylch llwybrau** – yn enwedig ym mlwyddyn 11.*

- Mae llawer o ddysgwyr yn mynegi dyhead am **arweiniad gwell** ynghylch llwybrau amgen ar ôl blwyddyn 11 ac, i raddau llai helaeth, ar ôl y chweched dosbarth mewn ysgolion. Ceir galwad, er enghraifft, am hyrwyddo **prentisiaethau** yn well a dealltwriaeth well amdanynt ymhlith dysgwyr.

*Yr unig bobl sydd i'w gweld fel pe baent yn gwybod am [y prentisiaethau] yw'r bobl sy'n gweithio yn [y cwmni hwn] a hen brentisiaid. Ac felly rwy'n meddwl heb os bod angen hyrwyddo hynny'n fwy. (Prentis)*

- Mae rhai cyfranogwyr yn awgrymu hefyd y dylid trefnu bod **addysg sgiliau bywyd ehangach**, fel cyllidebu ac annibyniaeth, ar gael.

*Yn enwedig ar ôl y coleg, rydych chi ar eich pen eich hun yn awr. Rydych yn llawer mwy annibynnol nag oeddech pan ymunoch chi gyntaf. Ac fe all hynny godi ofn mawr ar rywun. Ac rwy'n gwybod mai dim ond yn fy mlwyddyn gyntaf ydw i, ond mae meddwl am hynny'n dal i godi tipyn o ofn arnaf. (Dysgwr AB)*



- Awgrymir nifer fach o newidiadau mewn perthynas â **llais y dysgwyr**. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau grwpiau bychain i gasglu barn dysgwyr, sianeli mwy cyson ar gyfer casglu adborth dysgwyr ar draws pob lefel addysg, a chau dolenni adborth yn gyflymach.
- Mae ar rai oedolion sy'n dysgu yn y gymuned eisiau **mwy o ymgysylltu** â'u darparwyr a fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n fwy o ran o'r system. Maent hefyd yn gofyn am **weinyddu mwy effeithlon** ar gyfer eu cyrsiau gan gynnwys bod **tiwtoriaid** yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt (e.e. gyda deunyddiau), **hyrwyddo** cyfleoedd dysgu oedolion yn well, a mwy o argaeledd lle mae cyrsiau yn y cwestiwn.

*Y syniad bod ffurflen ar-lein neu beth bynnag yn gallu cael ei hanfon atom, i siarad am sut brofiad yr ydym yn ei gael fel bod y cwmni'n gallu dod i wybod am ein teimladau yn ei gylch. (Oedolyn sy'n dysgu yn y gymuned)*

- Mae rhai dysgwyr AB yn codi'r pryder amserol ynglŷn â'r angen i sicrhau bod dysgwyr yn gallu parhau i **deithio am ddim ar fysiau**.

*Mae cyfranogwyr yn teimlo bod nodau strategol drafft Medr yn ymdrin â safbwyntiau perthnasol gan ddysgwyr ond yn lleisio rhai materion ynglŷn â gallu uniaethu â hwy a'u deall.*

- Ar y cyfan, teimlir bod y nodau drafft yn cwmpasu **meysydd pwysig sy'n berthnasol i ddysgwyr** a'u hanghenion.  
*Mae'n bur dda. Mae'r rhain yn bethau y byddwch yn bendant am eu gweld. (Dysgwr AB)*
- Fodd bynnag, mae'r term **'trydyddol'** a ddefnyddir mewn tri o'r nodau'n **anghyfarwydd** i lawer a gall fod yn annymunol, gan awgrymu nad yw'n iaith sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr.
- Mae rhai cyfranogwyr yn teimlo y byddai'r nodau'n cael mwy o effaith pe bai **terfynau amser** ar gyfer gweithredu'n gysylltiedig â hwy.

*Nod strategol 1: Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr – eu profiad, eu cyflawniad a'u llesiant, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn prosesau penderfynu, a hybu cyfranogiad mewn dysgu ar bob adeg mewn bywyd*

- Mae'r nod hwn yn cael ei werthfawrogi am ei fod yn **blaenoriaethu anghenion dysgwyr** a'u cynnwys mewn prosesau penderfynu ond mae rhai o'r farn ei fod yn **rhy eiriog** ac amwys. Mae rhai cyfranogwyr yn awgrymu ei fyrhau a chynnwys 'cymorth ar gyfer y dysgwr' yn lle rhestru 'eu profiad, eu cyflawniad a'u llesiant'.  
*Mae'r cyfan ohono'n gadarnhaol, ond mae'n hir iawn i'w ddarllen. . . . Rwy'n meddwl bod 'anghenion dysgwyr' ei hun yn hunanesboniadol. (Dysgwr chweched dosbarth mewn ysgol)*

*Nod strategol 2: Creu system addysg a hyfforddiant gydlynol lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt i gael effaith go iawn ar economi a chymdeithas sy'n newid*

- Mae'r nod hwn yn taro tant ar gyfer ychydig o ddysgwyr AU ac AB o ran sgiliau sy'n berthnasol i **economi a chymdeithas sy'n newid**, ond roedd mwy'n ei weld fel un sy'n **canolbwyntio'n llai ar ddysgwyr** ac sy'n bell oddi wrthynt. Mae'r cyfeiriad yn y nod at

'economi a chymdeithas', i rai, yn teimlo'n rhy eang a datgysylltiedig ar gyfer dysgwyr unigol.

*Os yw'n cael ei anelu at fyfyrwyr, a fyddai'n well datgan mai eu nod yw annog pobl i wireddu eu potensial eu hunain? . . . Rwy'n meddwl y dylid geirio nod 2 o gwmpas y myfyriwr. (Oedolyn sy'n dysgu yn y gymuned)*

**Nod strategol 3:** Sicrhau bod addysg drydyddol yn amcanu at safonau rhagorol, darpariaeth o ansawdd ac yn codi disgwyliadau addysgol er mwyn i ddysgwyr wireddu eu huchelgeisiau

- Mae myfyrwyr AU o'r farn bod **nod strategol 3** yn **bwysig** ac yn **berthnasol**. Mae ychydig o oedolion sy'n dysgu yn y gymuned hefyd yn hoffi sut y mae'r nod hwn yn teimlo'n un y gellir uniaethu ag ef am ei fod yn cyfeirio atynt hwy fel dysgwyr sy'n gwireddu eu huchelgeisiau. Fodd bynnag, roedd y nod yn fwy tebygol na'r nodau eraill o ddenu sylwadau a oedd yn ei gwestiynu, sylwadau llai cadarnhaol ac awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gellid ei wella.
- Mae ei bwyslais ar godi **'dyheadau addysgol'** weithiau'n cael ei gwestiynu fel rhywbeth a allai gynyddu'r pwysau ar ddysgwyr, gyda chyfranogwyr yn dehongli'r geiriad fel un sy'n ymwneud â gosod disgwyliadau ar ddysgwyr yn hytrach nag ar ddarparwyr addysg. Hefyd, **nid yw'n swnio'n ddigon pendant** i rai cyfranogwyr am ei fod yn cyfeirio at 'amcanu at safonau rhagorol' a ddylai fod yn digwydd yn barod.

*Y prif bryder i'r rhan fwyaf o ddysgwyr yw disgwyliadau. . . . Mae hynny braidd yn frawychus i'r rhan fwyaf o bobl. (Dysgwr AB)*

**Nod strategol 4:** Tyfu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol

- Mae **crynodder nod strategol 4** yn cael ei **groesawu** gan rai, ond gall cyfeiriadau at 'ymchwil o fri rhyngwladol' **ddrysu** dysgwyr nad ydynt mewn AU. Nid yw hi'n glir beth mae hyn yn ei awgrymu ar gyfer y sector addysg drydyddol ehangach. Mae ar fyfyrwyr AU eisiau mwy o fanylder ynghylch sut y byddai'r nodau ymchwil ac arloesi'n cael eu cyrraedd.

*A yw hynny'n golygu fy mod i'n ymchwilio i bethau ledled y byd, ynteu ydw i'n cymryd ymchwil o leoedd ledled y byd? Ydw i'n gwneud ymchwil? . . . Dydw i ddim wir yn deall beth mae'n ei olygu. (Dysgwr chweched dosbarth mewn ysgol)*

**Nod strategol 5:** Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, a chynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg

- Cydnabyddir bod ffocws y nod hwn ar ddefnyddio'r Gymraeg yn **bwysig** gan gynnwys ymhlith y rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae ychydig o gyfranogwyr yn meddwl bod y nod yn swnio fel pe bai'n **gwthio'r Gymraeg ar ddysgwyr** ac yn credu y dylai'r geiriad gyfleu'r ffaith mai dewisol ydyw ac nad yw'n orfodol.

*Yn bersonol, rwy'n meddwl bod rhif pump yn weddol bwysig. Ceisio sicrhau bod mwy o bobl yn siarad Cymraeg ac yn dysgu yn Gymraeg. . . . Peth mawr. . . . Lle'r ydw i, nid oes llawer o siaradwyr Cymraeg ac nid oes llawer o bobl yn dysgu Cymraeg ychwaith. (Prentis)*

## Casgliadau ac argymhellion

- Mae dysgwyr AU, AB a chweched dosbarth mewn ysgolion yn dweud bod strwythurau ac adnoddau ffurfiol ac anffurfiol yn eu lle yn ogystal â diwylliant o wrando mewn modd rhagweithiol. Fodd bynnag, fe hoffai rhai dysgwyr chweched dosbarth mewn ysgolion gael mwy o ryddid i fynegi barn. Mae prentisiaid ac oedolion sy'n dysgu yn y gymuned i'w gweld fel pe baent yn dibynnu'n fwy ar eu haseswr neu eu tiwtor i allu ymgysylltu, yn hytrach na theimlo eu bod yn rhan o strwythurau a systemau sefydliadol ar y cyfan. Mae hyn yn awgrymu y byddai o gymorth sicrhau bod dysgwyr o'r fath yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am yr opsiynau llais y dysgwr sy'n agored iddynt, heblaw trwy eu tiwtor / aseswr.
- Mae'r thema a ddaeth i'r amlwg o ran sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus yn lleisio'u barn yn dynodi bod hwn yn faes i'w ystyried wrth ddatblygu cyfleoedd llais y dysgwr.
- Materion gyda phrofiadau o lwybrau dysgwyr yw'r thema fwyaf blaenllaw i ddod i'r fei o'r ymchwil gan ei bod wedi cael ei hamlygu gan y rhan fwyaf o grwpiau. Roedd hi hefyd yn amlwg pan ddywedodd cyfranogwyr beth fyddent wir yn hoffi ei weld yn newid ym mhrofiad dysgwyr. Yn arbennig, mae profiadau cyfranogwyr o orffen blwyddyn 11 a deall y dewisiadau o'u blaenau'n gallu amrywio'n fawr. Mae angen parhau i ddatblygu dilyniant cydlynol i ddysgwyr sy'n gorffen addysg orfodol fel bod ganddynt ddealltwriaeth lawn am y cyfleoedd sydd o'u blaenau.
- Er bod yr ymchwil yn darparu barn eang a gweddol gadarnhaol gan ddysgwyr ynglŷn â chyfle cyfartal, iechyd meddwl a lles, a barn gymysg ynglŷn â datblygu sgiliau Cymraeg, er mwyn cael dealltwriaeth fanylach am y profiadau hyn byddai angen gwaith wedi'i dargedu'n fwy ymhlith dysgwyr (e.e. samplau penodol o ddysgwyr â phrofiadau o rwystrau, heriau o ran iechyd meddwl a lles a.y.b.).
- Mae'r cysyniadau sy'n sail i'r nodau strategol drafft yn ymdrin â meysydd sy'n berthnasol yn ôl yr hyn a ddywed dysgwyr. Nid amlygwyd unrhyw hepgoriadau arwyddocaol ac, at ei gilydd, ni chafodd yr un o'r nodau yn ei gyfanrwydd ei herio dros fod wedi ei gynnwys. Roedd adborth dysgwyr yn troi o gwmpas materion dealltwriaeth ac weithiau'r argraff bod nod, neu ran o nod, yn canolbwyntio'n llai ar ddysgwyr. Mae pwyntiau y dylid ystyried eu hadolygu'n cynnwys:
  - Defnyddio'r term 'trydyddol'
  - A ellir gwneud nod 1 yn fwy cryno
  - Sut i wneud i'r cysyniad o gael effaith ar 'economi a chymdeithas sy'n newid' yn nod 2 deimlo'n fwy fel un y gall dysgwyr uniaethu ag ef
  - Sut i ymgorffori 'disgwyliadau addysgol' yn nod 3 heb i ddysgwyr deimlo mai arnynt hwy y mae'r disgwyliadau
  - A ddylai nod 4 gyfeirio'n benodol at AU lle mae 'ymchwil o fri rhyngwladol' yn y cwestiwn neu a ellir ei wneud yn haws uniaethu ag ef i'r sector addysg drydyddol yn ei gyfanrwydd
  - Sicrhau bod nod 5 yn cyflwyno datblygiadau o ran y Gymraeg fel cyfleoedd ac nad yw'n cael ei gamddehongli fel un sy'n awgrymu bod dysgu Cymraeg a dysgu yn Gymraeg yn orfodol

- A ddylai arweiniad ynghylch llwybrau dysgwyr gael ei ymgorffori'n benodol o ystyried pa mor flaenllaw ydoedd yn yr adborth.
- Byddai unrhyw weithgarwch pellach i rannu nodau strategol gyda dysgwyr yn elwa o gyd-destun – yn yr ystyr eu bod yn cael eu cefnogi â manylion sut y bydd y nodau'n cael eu cyrraedd ac erbyn pryd.

### ***Goblygiadau ar gyfer dull Medr o ymgysylltu â dysgwyr***

- Ceir parodrwydd datganedig i ymgysylltu â Medr trwy sianeli presennol gan y byddai'r sianeli'n effeithlon ac yn gyfarwydd i ddysgwyr. Mae dysgwyr yn dal i fod yn agored i sianeli ymgysylltu a arweinir gan Medr megis gofod neu fforwm ar-lein. Fe ymatebodd cyfranogwyr yn gadarnhaol i'r dull grwpiau ffocws fideo a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hon a oedd yn adlewyrchu rhai awgrymiadau ar gyfer trafodaethau mewn grwpiau llai.
- Dylid cofio bod cyfranogwyr wedi cael taleb Amazon am gymryd rhan. Gan adleisio hyn, eglurodd ychydig o gyfranogwyr fod cymhelliad yn helpu i symbylu dysgwyr i ymwneud â llais y dysgwr.
- Argymhellion ar gyfer ymgysylltu wedi'i dargedu yn y dyfodol gan ddefnyddio grwpiau ffocws fyddai lleihau uchafswm y dysgwyr ym mhob grŵp i 5-7 cyfranogwr. Bydd hyn yn helpu i roi digon o amser i bob cyfranogwr ymateb i destunau a gwneud hynny mewn mwy o fanylder.
- Rydym hefyd yn argymhell bod ymgysylltu tebyg yn y dyfodol yn cyfyngu ar nifer y testunau y rhoddir sylw iddynt, yn enwedig os oes angen manylder. Nid oedd y prosiect ymchwil hwn yn gallu ymdrin yn rhy fanwl â'r pynciau o ystyried y pynciau eang yr oedd angen rhoi sylw iddynt.
- Nid yw'r dysgwyr a gyfranogodd yn yr ymchwil hon o anghenraid yn eu hystyried eu hunain yn rhan o system addysg ôl-orfodol ehangach. Nid yw'r term 'addysg drydyddol' yn taro tant gyda dysgwyr, ac fe allai cyfeiriadau at agweddau ar y system nad oeddent yn uniongyrchol berthnasol i brofiadau'r dysgwr unigol, megis hyfforddiant neu ymchwil, beri dryswch. Fodd bynnag, mewn meysydd eraill roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod bod agweddau megis y Gymraeg a manteision ehangach i'r economi a chymdeithas yn rhan bwysig o'r cynllun strategol.
- Yn ei ymgyngoriadau ac ymchwil yn y dyfodol, bydd angen i Medr ystyried yn ofalus sut y mae'n taro cydbwysedd rhwng themâu strategol troswaol, a meysydd mwy penodol y gall dysgwyr eu cysylltu â'u profiadau o ddydd i ddydd.